



DYFODOL

DE CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHWARTER 4


2019 - 2020




Cynnwys

Uchafbwyntiau Gweithgareddau Dyfodol	1
Rhagair	2
ADRAN 1: CYMUNED	4
Llwyth Achosion.....	4
Llwyth Achosion Cymunedol Statudol.....	7
Llwyth Achosion Clinigol	10
Ymyraethau Lleihau Niwed.....	12
Canlyniadau.....	13
Yr Offeryn Mesur Canlyniadau'r Gwasanaeth Cymorth (canlyniadau cadarnhaol) (SSOM).....	17
ADRAN 2: GWEITHGAREDDAU DYFODOL YN NALFA YR HEDDLU.....	19
Marchnadoedd Cyffuriau a Llinellau Cyffuriau	25
ADRAN 3: CARCHARDAI SECTOR CYHOEDDUS	27
Mewnlfif ac ymsefydlu:.....	27
Llwythi Achosion.....	28
Cynllunio Rhyddhau.....	29
ADRAN 4: YMGYSYLLTIAD Â GWASANAETHAU CYMUNEDOL AR ÔL RHYDDHAU	30
ADRAN 5: DATBLYGIAD, ARLOESED A GWERTH YCHWANEGOL GWASANAETH DYFODOL.....	34
Triniaeth Alcohol.....	35
Gweithio gyda chymhlethdod.....	35
Ymyraethau a gweithgareddau grŵp	36
Gweithio mewn Partneriaeth â Dogs Trust a Therapy Dogs UK.....	37


Uchafbwyntiau Gweithgareddau Dyfodol




Dalfa ([Tudalen 20](#))
16557 o Gysylltiadau
12360 o Ymgysylltiadau
Gweithredol 2019/20
527 o Atgyfeiriadau i
wasanaethau arbenigol
380 o Atgyfeiriadau
ychwanegol i Dyfodol a 388 o
atgyfeiriadau i Future 4
12417 o Gyfeiriadau




**Carchardai Sector
Cyhoeddus** ([Tudalen
27](#))
6351 o Aseidiadau
2004 wedi'u derbyn ar
lwyth achosion
504 o lwythi achosion
Mawrth 2020



Clinigol ([Tudalen 10](#))
534 ar Therapi Amnewidion
Opioid Mawrth 2020
784 o drosglwyddiadau clinigol i
garchardai
Cyflwyno Buvidal



Cymuned ([Tudalen 4](#))
2816 o Atgyfeiriadau
1590 wedi dechrau ar lwyth
achosion
238 o hysbysiadau o
orchmynion statudol
newydd
795 ar lwyth achosion
Mawrth 2020



Canlyniadau Allweddol
32% o ddynion wedi'u hasesu yn
cael eu derbyn ar lwyth achosion
Dyfodol yn y carchar
962 o bobl sy'n gadael y carchar
wedi bod i apwyntiad rhyddhau
gyda Dyfodol
217 wedi cyflawni Triniaeth
Gorchymyn Statudol
541 wedi cwblhau triniaeth yn y
Gymuned yn llwyddiannus
85% o drosglwyddiadau clinigol
mewn carchardai wedi mynychu
gwasanaethau clinigol yn y
gymuned gan Dyfodol.

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer pedwaredd flwyddyn contract Dyfodol. Mae perfformiad a chyflawniad yn ystod 2019/20 wedi bod yn gyson uchel, wrth i'r holl ddata rheoli a'r holl systemau gwybodaeth sydd ar gael ddangos cyflawniad dull cadarn, cydlynol wedi'i seilio ar ddysgu ym mhob maes gwasanaeth.

Eleni bu pwyslais parhaus mewn cymunedau ar gefnogi gwaith rhyngasiantaethol i ymdrin â thueddiadau Llinellau Cyffuriau, hunanwenwyno, sylweddau seicoweithredol, digartrefedd a cham-drin domestig trwy waith partneriaeth parhaus â'r awdurdodau statudol, cynghorau a phartneriaid y trydydd sector. Darparwyd gwasanaethau ychwanegol sydd wedi'u hymgorffori ag arfer Dyfodol ac sy'n cyd-fynd â'r arfer hwnnw er mwyn gallu defnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau posibl a chefnogi agendau strategol ehangach (gwaith Digartrefedd yng Nghaerdydd a chymorth cymunedol ac i weithwyr rhyw ym Mae'r Gorllewin). Efallai bod y datblygiadau hyn yn adlewyrchu aeddfedrwydd contract Dyfodol a'i safle sefydledig ym mhob ardal Uned Reoli Sylfaenol/Iechyd a Phrawf.

Mewn arfer rheng flaen, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu ei bwyslais ar ddull seicoleg gadarnhaol o weithio, gan barhau i wella sgiliau staff trwy'r Clinigau Achosion Cymhleth sydd wedi'u harwain gan seicoleg a'r ymrwymiad i ddefnyddio'r offer mesur canlyniadau i archwilio canlyniadau meddal a chyfeiriad y daith. Adlewyrchir hyn yn y pwyslais parhaus ar arloesed ac ymrwymiad i'r strwythurau cydweithredol ar draws contractau sydd wedi galluogi hyn, megis y Grŵp Datblygu ac Arloesi. Daeth datblygiad y gwaith gyda Dogs Trust a chŵn Therapi drwy'r gweithwyr Lles sydd wedi'u lleoli yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'u rôl yn y Grŵp Datblygu ac Arloesi.

Mae gwaith staff Dyfodol yn nalfa'r heddlu yn adlewyrchu gwasanaeth ymatebol wedi'i seilio ar waith agos gyda'r heddlu a nodi grwpiau agored i niwed a, lle bo'n bosibl, ailgyfeirio i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol i dderbyn cymorth yn y gymuned ehangach. Mae'r gwaith hwn wedi'i ategu hefyd trwy integreiddio contract Future 4 sydd wedi'i gynllunio ar gyfer oedolion ifanc a merched – lle, unwaith eto, caiff y cyfleoedd gorau eu sicrhau wrth i waith y ddau gontract gyd-fynd yn dda â'i gilydd – er mwyn lleihau'r dyblygu gymaint â phosibl a manteisio i'r eithaf ar arferion cydweithio yn y rhan flaenaf hon o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r gwasanaethau carchardai wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio ac wedi mynd i'r afael â heriau cyflawni gwaith grŵp mewn carchardai lleol. Hefyd, trwy gydweithio cynyddol gadarn â Gofal Iechyd yn y carchar, mae datblygiadau mwy diweddar wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y gwaith 'Trwy'r Porth'. Mae'r holl ddarparwyr clinigol allanol ledled Gorllewin Cymru, Gwent a De Cymru yn rhan o ymgyrch gynyddol i

weithio'n gydweithredol er mwyn lleihau'r amrywio daearyddol o ran dull a darpariaeth gymaint â phosibl.


Bydd pwyslais yn parhau ar integreiddio gwasanaethau'r system cyfiawnder troseddol yn llawnach i driniaeth a chymorth cymunedol ehangach a systemau adfer dan arweiniad cymheiriaid. Yn allweddol i hyn fydd lleoli Dyfodol yn yr ad-drefnu ar draws y tair ardal ddaearyddol Bwrdd Iechyd, Uned Reoli Sylfaenol a Phrawf yn Ne Cymru. Mae uwch reolwyr Dyfodol yn adolygu strwythurau gweithredu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ad-drefnu sefydliadol diweddar hyn. Drwy hyn, rydym o'r farn y bydd defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau yn elwa ar amgylchedd strategol cynyddol gydlynol.

Bu heriau sylweddol eleni o ran rhai o faterion seilwaith ehangach Dyfodol a phrofwyd budd dull cydweithredol a chefnogol o ddatrys problemau trwy'r Tîm Comisiynu a Chontractau newydd. Rhannwyd y gwaith a wnaed i sefydlu strategaeth adeiladau/safleoedd mwy cynaliadwy ac mae ymrwymiad o'r newydd i sefydlu sefyllfa foddhaol a chadarn. Yn yr un modd, yn sgil cynnydd digynsail yng nghost rhai o'r feddyginiaeth Triniaeth Amnewidiadau Opioid, bu dull mwy gweithredol a chefnogol gan y Rheolwr Contractau o nodi cyfrifoldebau system ehangach ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Dyfodol pan fo angen iddynt symud ymlaen i ddarpariaeth gwasanaeth iechyd lleol berthnasol.

Mae thema gyffredinol eglur yn dod i'r amlwg o gydweithredu a chyd-fynd strategol cynyddol ac er bod rhai agweddau ar hynny wedi datblygu'n fwy nag eraill, o ran cyflawni buddion, gyda'n gilydd rydym yn sicr yn symud i'r cyfeiriad cywir ac edrychwn ymlaen at barhau i ddysgu, bod yn agored i ddulliau newydd a galluogi defnyddwyr gwasanaeth Dyfodol a chymunedau i elwa ar hyn.

ADRAN 1: CYMUNED

Llwyth Achosion




*Sylwer y daw'r data o brosesau cofnodi Dyfodol / G4S. Nid yw'n dibynnu ar PalBase.

Mae niferoedd llwythi achosion yn ystod y flwyddyn wedi bod yn weddol sefydlog er bod gennym lai ar lwythi achosion ar ddiwedd y flwyddyn nag oedd gennym ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrech daer i wella cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth sefydlog nad ydynt yn aildroseddu symud i wasanaethau ieuchyd cymunedol neu'r trydydd sector. Trwy dynnu'r unigolion hyn allan o'r garfan cyfiawnder troseddol, a'u galluogi i gael gafael ar ddarpariaeth fel aelod o'r cyhoedd, mae'n lleihau'r cyfleoedd ar gyfer dylanwadau negyddol ac yn broses rymusol, urddasol. Mae hefyd yn rhyddhau adnoddau gan ein galluogi i barhau i groesawu pobl i'r gwasanaeth heb oedi a gallu ymdopi â'r cynnydd sylweddol ym mhris meddyginiaeth a welwyd yn ystod y misoedd diwethaf. Ar y cyfan, mae'r ymdrech hon yn sicrhau y gall y rhai y mae angen cymorth tymor hirach arnynt barhau i dderbyn gwasanaeth a gwneud cynnydd fel dinasyddion, wrth i ni sicrhau bod triniaeth ar gael trwy wasanaethau Dyfodol i'r nifer mwyaf posibl o bobl.


Mae llwyth achosion carchardai sector cyhoeddus yn parhau i fod yn uchel ac yn herio adnoddau Dyfodol mewn carchardai. Mae hefyd yn ddefnyddiol nodi bod dros 490 o ddynion ar lwyth achosion Dyfodol yn CEM Y Parc. Mae'r dynion hyn yn cael gafael ar wasanaethau yn rhan o gcontract CEM Y Parc, ond trwy ein dull cydweithredol maent yn

gweithio yn unol â model Dyfodol. Mae hyn yn arwain at gydlyniaeth gadarn yn y daith garchar yng Nghymru o safbwynt y defnyddwyr gwasanaeth a pharhad cadarn trwy'r porth o bob carchar ar unrhyw gam o'u taith gyfiawnder; mae hyn yn ychwanegu gwerth sylweddol at y contract hwn.

Llwyth Achosion Dyfodol Ch 4



Llwyth Achosion yn ôl Rhywedd




Mae canran y defnyddwyr gwasanaeth sy'n ferched wedi cynyddu dau i dri y cant yn ystod y flwyddyn – mae hwn bob amser yn duedd i'w chroesawu ac rydym yn nodi bod Abertawe yn arbennig wedi bod yn effeithiol wrth ddenu merched i'r gwasanaeth a'u cadw trwy weithgareddau wedi'u targedu'n benodol.

Rydym yn cydnabod bod anghymhellion eglur sy'n atal merched rhag ceisio triniaeth, megis ofn ynghylch sgil-ffeithiau posibl ar eu plant. Mae trais gan bartner agos yn ffactor arall, oherwydd pryderon ynglŷn â chynhyrfu perthynas bresennol dreisgar neu ar chwâl pe darganfyddir eu bod yn ceisio cymorth. Felly, i ddarparu amgylchedd lle gall merched gymryd rhan yn y gwasanaeth, rydym yn cynnig:


- Gweithgareddau sy'n denu merched;
- Gwaith grŵp i annog cymorth cymheiriaid a datblygu perthynas gadarnhaol;
- Cymorth strwythuredig un i un ac atgyfeirio ymlaen;
- Amgylchedd diogel â mynediad at ein staff – yn ffurfiol ac yn anffurfiol;
- Cymorth a gwasanaethau yn ymwneud ag iechyd rhywiol a feirysau a gludir yn y gwaed.

Llwyth Achosion yn ôl Oedran



Mae proffil oedran y gwasanaeth yn mynd yn gynyddol hŷn ac mae'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn 31-50 oed. Erbyn hyn, mae carfan fach yn 61-70 oed.


Ethnigrwydd Llwyth Achosion (diwedd 2019/20)



- Nododd 93% o lwyth achosion cymuned Dyfodol eu bod yn 'Gwyn Prydeinig'.

Llwyth Achosion Cymunedol Statudol

Mae achosion Rheoli Troseddwyr Integredig yn cyfrif am 19% o llwyth achosion cymunedol Dyfodol (a adlewyrchir mewn ymgysylltiad gwirfoddol neu drwy orchmynion statudol cymunedol). Ceir hefyd nifer bach ond sylweddol o achosion Dyfodol o'r garfan WISDOM sy'n canolbwyntio ar reoli troseddwyr risg uchel iawn yn y gymuned.




*AAR/RAR – Gofyniad Gweithgarwch Alcohol / Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu

*ATR – Gofyniad Triniaeth Alcohol

*DRR – Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau


*IOM – Rheoli Troseddwyr Integredig

Llwyth achosion statudol Ch4




- Mae'r nifer mwy sylweddol o Ofynion Adsefydlu Cyffuriau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn debygol o adlewyrchu'r strwythur Llys Cyffuriau sy'n nodwedd sefydledig erbyn hyn o System Cyfiawnder Troseddol Abertawe (sy'n gwasanaethu'r ardal gyfan honno).
- Mae'n debygol y gellir priodoli hyn hefyd i'r berthynas waith arbennig o agos rhwng tîm Dyfodol a chydweithwyr y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu yn Abertawe. Yn ein canolfan yng Nghastell-nedd mae'r Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu wedi'u cydleo'i â'r tîm Dyfodol, gan greu gwasanaeth integredig cryf.

Llwyth achosion yn ôl ardal APB




Math y llwyth achosion ar ddiwedd y flwyddyn



Pobl a ddechreuodd gyda Dyfodol yn 2019/2020

Pobl newydd ar y llwyth achos yn 2019/20



* Sylwer y daw'r data o brosesau cofnodi mewnol Dyfodol. Nid yw'n dibynnu ar PalBase.

- Yn 2019/20, mae 1590 o atgyfeiriadau cymunedol wedi'u hasesu a'u derbyn ar lwyth achosion cymunedol Dyfodol ledled De Cymru.

Llwyth Achosion Clinigol

Mae **triniaeth glinigol** ar gael i'r rhai hynny â phatrwm o ddefnydd aml a sylweddol o Opioidau (dyma'r teulu o gyffuriau y mae heroin yn perthyn iddo). Triniaeth glinigol yw darpariaeth dos dyddiol o feddyginiaeth i efelychu neu atal effeithiau y sylwedd hwn. Mae hwn yn helpu unigolion i ymdopi â materion sy'n ymwneud â dibyniaeth gorfforol yn y ffyrdd canlynol:


- Mae'n dileu'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau na ellir dibynnu ar eu purdeb na chryfder.
- Mae'n darparu sylwedd diogel ar ddos sydd wedi'i reoli o ran maint ac amllder ac wedi'i oruchwylio gan glinigwr proffesiynol.
- Mae hefyd yn dileu angen y defnyddiwr i wneud arian mewn ffyrdd anghyfreithlon i brynu sylweddau drud gan ddelwyr troseddol.

Defnyddir triniaeth glinigol ledled y byd i helpu i leihau'r niwed yn sgil defnyddio sylweddau, niwed i'r unigolyn a'r gymuned, niwed o ran effaith feddygol a materion ymddygiad gan gynnwys troseddu. Mae gennym ni dimau clinigol wedi'u lleoli ym mhob un o'n canolfannau cymunedol i ddarparu'r driniaeth hon.


Mae'n bwysig nodi bod y driniaeth glinigol yn elfen sylfaenol o'n gwasanaethau, mae'n darparu diogelwch a chadernid i ddefnyddwyr dyddiol o opioidau, ond ni all arwain at newid ei hun. Daw newid yn sgil gwaith clinigol a **seicogymdeithasol** ar y cyd. Caiff y gwaith hwnnw ei oruchwylio a'i wneud gan ein gweithwyr achos yn ein canolfannau a'n sefydliadau cyfiawnder. Mae gwaith seicogymdeithasol yn cynnwys cefnogi pobl i ddatblygu dyfodol nad yw'n canolbwyntio ar ddefnyddio sylweddau niweidiol. Mae gweithwyr yn cefnogi camau adsefydlu a newid ffordd o fyw trwy gynnal asesiadau cydweithredol o gamddefnydd sylweddau a ffactorau ffordd o fyw cysylltiedig. Maent yn helpu i gefnogi a hwyluso datblygiad sefydlogrwydd, yn gweithio ar newid cadarnhaol ac yn datblygu cadernid trwy ddulliau sy'n cynnwys y canlynol:

- Darparu gwybodaeth a chynghor gan gynnwys lleihau niwed.
- Ymgymryd â chynllun triniaeth ac adfer cydweithredol.
- Helpu i ddatblygu gweithgareddau, diddordebau, hobiau ac arferion cadarnhaol.
- Nodi risgiau, heriau ond hefyd cryfderau a ffactorau amddiffynnol.
- Defnyddio ymyraethau ysgogol mewn sesiynau un i un a rhai grŵp.
- Defnyddio offer a deunyddiau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Helpu gydag anghenion ymarferol a chymdeithasol (e.e. darparu cymorth, neu atgyfeirio i gymorth, i allu hawlio budd-daliadau lles).
- Helpu i ddatblygu ffyrdd o atal methiannau a strategaethau i atal atgwmpo.

Llwyth Achosion Clinigol




Llwyth Achosion Clinigol Ch4 yn ôl Ardal APB



- Ar ddiwedd Ch4, roedd 534 o ddefnyddwyr gwasanaeth cymunedol ar bresgripsiwn meddyginiaeth amgen yng ngwasanaeth cymunedol Dyfodol.

Rydym wedi bod yn gweithio yn ystod y misoedd diwethaf i geisio gwella'r llif allan o Dyfodol ac i'r gwasanaethau cymunedol gan fod hyn wedi bod yn fater heriol yn y gorffennol am amryw o resymau sy'n amrywio rhywfaint rhwng ardaloedd Bwrdd Cynllunio Ardal (APB). O ganlyniad, cafwyd rhywfaint o effaith ar leihau'r niferoedd sydd gyda ni ar ôl 53 wythnos neu fwy. Mae gwaith ffocws rheolwr contract Dyfodol y Comisiynydd wedi ei groesawu ac mae wedi dechrau tynnu sylw at rôl a heriau y

gwasanaeth wrth sicrhau mynediad i wasanaethau ac adnoddau cymunedol a chodi ymwybyddiaeth o hyn.



Ymyraethau Lleihau Niwed

Mae staff Dyfodol yn ceisio manteisio ar bob cyfle posibl i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr gwasanaeth o ffyrdd o sicrhau eu bod yn achosi cyn lleied â phosibl o niwed iddyn nhw ac i eraill. Felly adlewyrchir hyn yn ymdrechion y staff i gynyddu mynediad pobl i ymyraethau iechyd na fyddan nhw'n gofyn amdanynt fel arfer ond sy'n aml yn hanfodol o ystyried y risgiau penodol a pha mor agored i bob math o niwed mae ein defnyddwyr gwasanaeth. Gwelir isod rai ffigurau sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed.

596
o becynnau
Prenoxad wedi'u
dosbarthu

184
o ymyraethau
Feirysau a Gludir
yn y Gwaed

244
o ymyraethau
lechyd Rhyw

277
o ddefnyddwyr gwasanaeth a
phartneriaid arwyddocaol
wedi'u hyfforddi i weinyddu
Prenoxad

111 wedi'u Sgrinio
56 o brofion Smotiau Gwaed
Sych
17 o Frechiadau

130 wedi'u Sgrinio
27 o brofion Ceg y Groth
71 wedi cael Cyngor
16 wedi cael Offer Atal
Cenhedlu


Canlyniadau

Enghraifft leol: Cwm Taf

Ers mis Ebrill 2019, mae Dyfodol wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i gysylltu eu rhaglen dan arweiniad nyrsys â'r grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth. Nod hyn yw:

- Hybu iechyd rhywiol da, annog defnyddwyr i beidio ag ymddwyn yn beryglus i leihau cyfraddau heintiau yn y dyfodol;
- Gwella ymwybyddiaeth o iechyd personol, i nodi a thrin cyflyrau presennol ac yn y dyfodol;
- Hyrwyddo a darparu offer atal cenhedlu i leihau lefelau beichiogrwydd digroeso neu anfwriadol;
- Gwella nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth sgrinio ceg y groth.

Mae gweithwyr achos Dyfodol yn hyrwyddo ac yn hyfforddi dulliau o leihau niwed sy'n benodol i sylweddau er mwyn gwella diogelwch a lleihau'r risgiau sy'n deillio o ddefnyddio sylweddau.



Mae nyrs arbenigol y GIG yn cynnig gwasanaethau lechyd a Lles Rhywiol mewn amgylchedd cyfarwydd, gan alluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod â'r wybodaeth i wneud penderfyniadau gydag arweiniad a chymorth, gan chwalu rhwystrau i driniaeth hanfodol. Gall y nyrs arbenigol eirioli ar ran defnyddwyr gwasanaeth, gan gysylltu ag ysbytai a gweithwyr gofal iechyd

proffesiynol eraill, trefnu apwyntiadau dilynol a gwella ymgysylltiad. O fis Ebrill hyd fis Rhagfyr 2019, ymgysylltodd 135 o unigolion, gan elwa ar yr amrywiaeth o wasanaethau a ddangosir yn y graff. Mae canolfannau Cwm Taf yn un pwynt cyswllt erbyn hyn i'r holl asiantaethau partneriaeth lleol megis Barod, Adref, Gwalia a'r Gwasanaeth Prawf.

Tysteb gan ddefnyddiwr gwasanaeth:

"Doeddwn i heb gael prawf ceg y groth ers 12 mlynedd. Roeddwn i'n falch o'r cyfle i fynychu Dyfodol a chael prawf ar y safle gyda'r nyrs."

Tania, 41




Mae iechyd rhywiol yn fwy na bod yn rhydd rhag afiechyd neu anhwylder rhywiol; nid yw iechyd rhywiol yn ymwneud â cham-fanteisio, mae'n ymwneud â pharchu'ch hun ac eraill. Mae iechyd rhywiol yn dibynnu ar ymdeimlad unigolion o hunan-barch; mae angen ymddiriedaeth, gonestrwydd a chyfathrebu ar gyfer iechyd rhywiol.

Cyfieithiad o eiriau Eli Coleman PhD; Cyfarwyddwr; Rhaglen Rhywioldeb Dynol.

Enghraifft leol: Castell-nedd


- Mae tîm Dyfodol Castell-nedd wedi mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo buddion profion Smotiau Gwaed Sych i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac mae system gadarn ar waith i'w hannog a'u galluogi i gymryd rhan. Mae dull 'optio i mewn' awtomatig wedi arwain at ystyried cynnal y prawf yn norm yn hytrach na bod stigma yn gysylltiedig iddo.
- Mae un pwynt cyswllt yn sicrhau bod cofnodion a chydymffurfiaeth yn dilyn canllawiau'r GIG.
- Mae nyrs y GIG yn cynnal clinig o'r ganolfan. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhwystrau sydd wedi'u chwalu.
- Mae'r nyrs yn darparu'r prawf, triniaeth a chymorth ar y safle yn hytrach na bod pobl yn mynd ar goll yn y system trwy atgyfeirio i ysbytai a chlinigau y tu allan i'r ardal.

Canlyniadau



Mae 39% o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadael gwasanaethau cymunedol Dyfodol trwy drosglwyddo i'r carchar. Fodd bynnag, mae'r graff isod yn dangos o'r sawl sy'n trosglwyddo i'r carchar, mae 62% yn gwneud hynny o fewn 12 wythnos gyntaf eu triniaeth (e.e. am resymau aildroseddu neu dorri'r drwydded). Felly mae'r rhai hynny sy'n ymgysylltu am dros 13 wythnos yn llai tebygol o adael gwasanaethau Dyfodol oherwydd eu bod yn mynd i'r carchar.

Yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n trosglwyddo i'r carchar




Yr Offeryn Mesur Canlyniadau'r Gwasanaeth Cymorth (canlyniadau cadarnhaol) (SSOM)


Mae'r graffiau/data yn adlewyrchu'r niferoedd ar ddiwedd pob mis gyda thempledi SSOM wedi'u cwblhau (h.y. data dechrau a gorffen); ar gyfer gwasanaeth Dyfodol – gall hyd ymgysylltu amrywio o bedwar wythnos i 52 wythnos neu hirach i rai.

Nodyn: Mae canlyniadau cadarnhaol crynswth SSOM yn adlewyrchu sgoriau (system sgorio) sydd wedi gwella rhwng dechrau a diwedd yr ymgysylltiad â Dyfodol. Mae hyn yn nodi lefel o 'gyfeiriad y daith' cadarnhaol. Darperir gwasanaethau Dyfodol ar gyfer y garfan fwyaf heriol/cymhleth o droseddwr. Mae llawer wedi'u heithrio o asiantaethau eraill, yn 'ddrws troi', mae llawer dan sylw tîm Rheoli Troseddwr Integredig yr Heddlu ac yn destun pryderon Diogelu/Gwasanaethau Cymdeithasol statudol. Mae llawer yn ddigartref, yn dioddef problemau iechyd meddwl, neu gyfuniad o'r pethau hyn.

Mae'r canlyniadau SSOM ym mhob un o'r categorïau yn dangos canran y canlyniadau cadarnhaol (newid cadarnhaol i gyfeiriad y daith) i'r rhai hynny sydd wedi gadael y gwasanaeth ac wedi bod yn cymryd rhan mewn triniaeth am fwy na phedair wythnos.



Canlyniadau cadarnhaol SSOM Dyfodol (2) Ebrill - Mawrth 20



Felly er enghraifft – mae'r graffiau uchod yn dangos bod rhwng 51 a 66% o bobl a oedd yn ymgysylltu am dros bedair wythnos yn cyflawni newid cadarnhaol yn eu hymddygiad troseddu a'u bod naill ai wedi peidio â throeddu neu wedi cyflawni troseddau llai difrifol. Mae mynediad i wybodaeth trwy gydweithredu â'r Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu a Niche yn ffyrdd pwysig y mae gweithwyr achos yn eu defnyddio i wirio yr hyn y gall defnyddwyr gwasanaeth fod yn dweud wrthynt am eu hymddygiad a'u canlyniadau.

ADRAN 2: GWEITHGAREDDAU DYFODOL YN NALFA YR HEDDLU


Yn y dalfeydd heddlu ledled De Cymru, mae staff yn gweithio i gwrdd â phobl sydd fel arfer mewn sefyllfa o argyfwng ar ôl cael eu harestio a'u cadw. Gwelir amryw o anghenion yn y lleoedd hyn ac mae staff yn gweithio yn y lleoliadau hyn er mwyn iddynt allu helpu i gefnogi'r anghenion hynny. Bob diwrnod o'r flwyddyn mae timau staff yn gweithio gyda'r heddlu a staff y ddalfa i gwrdd â'r rhai sy'n cael eu cadw yno, i wrando ac arsylwi, i frysbennu ac asesu ac i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth parhaus. Y nod yw helpu unigolion i adolygu'r amgylchiadau a arweiniodd at eu cadw yn y ddalfa, i gydnabod y ffactorau a achosodd hyn ac i ymgysylltu â chymorth a fydd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd eto.

Er bod anghenion unigolion yn dod i'r amlwg yn y ddalfa, nid yw bob amser yn lle hawdd i unigolion dderbyn cymorth. Mae timau Dyfodol yn ymwybodol o hyn ac yn addasu eu dulliau cyfathrebu yn briodol i bob unigolyn ac yn cyflwyno cynnig o gymorth yn unol â bodlonrwydd yr unigolyn i ymgysylltu. Mae hyn yn golygu y bydd staff yn gallu rhoi taflenni gwybodaeth i rai, yn gallu cael sgwrs fer ag eraill, a byddant yn gallu cael trafodaeth ystyrlon â llawer a rhoi gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth iddynt o le i fynd i gael cymorth, â nodau clir, neu byddant yn gallu cyflwyno'r bobl i wasanaethau Dyfodol er mwyn cael cymorth adferol.

O ran camddefnyddio sylweddau yn benodol, mae staff Dyfodol yn cefnogi camau Profi adeg Arestio trwy gynnal asesiadau a chynnig gwasanaeth sy'n cynnwys cyngor ar leihau niwed, mynediad cyflym i ragnodi cymunedol a gwaith achos wyneb yn wyneb parhaus.


- Gwnaeth gweithwyr Atgyfeirio Arestuadau Dyfodol gyswllt â 16557 o'r holl bobl a oedd wedi'u cadw yn nalfa'r heddlu.
- Gwelodd 75% (12360) weithwyr atgyfeirio arestuadau.
- Cafodd 25% (4197) eu cyfeirio (gwaith goddefol) gan eu bod wedi gwrthod ymgysylltu (2829) neu nad oedd modd eu gweld (1368). Rhoddwyd taflen wybodaeth i bob un ohonynt.

Gweithgareddau Blynyddol yn y Ddalfa




Pobl Newydd yn y Ddalfa

■ Pen-y-bont ar Ogwr ■ Caerdydd ■ Merthyr Tudful ■ Abertawe




- Cafwyd 26365 (18+) o bobl newydd yn y pedair dalffa yn Ne Cymru (Data Heddlu De Cymru): Caerdydd = 10390 (39%), Merthyr = 5606 (21%), Abertawe = 5744 (22%) a Phen-y-bont ar Ogwr = 4625 (18%).

Cysylltiadau Dyfodol yn y Ddalfa: Rhywedd




Cysylltiadau Dyfodol yn y Ddalfa: Oedran


■ 18-25 oed ■ 26-30 oed ■ 31-40 oed ■ 41-50 oed ■ 51-60 oed ■ 61+ oed




Mae ymgysylltu gweithredol yn cyfeirio at y gwaith y mae staff Dyfodol yn ei wneud pan fyddant yn gallu ymgysylltu â phobl i'w cefnogi'n weithredol. Gall hyn fod ar ffurf siarad â nhw i gynnig cyngor neu arweiniad a gall hefyd gynnwys dweud wrthynt am asiantaethau a all eu helpu a sut i gysylltu â'r asiantaethau hynny. Weithiau, mae'n ymwneud â chynorthwyo'r unigolyn i atgyfeirio i asiantaeth benodol.



Cysylltiadau Cyffuriau, Alcohol a Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS) yn y Ddalfa



- Yn 2019/20 cafwyd 9501 o ddatgeliadau o gamddefnydd problematig o sylweddau a/neu alcohol. Roedd 66% (6254) o'r rhain yn faterion camddefnyddio sylweddau, 32% (3077) yn faterion alcohol ac roedd gan 2% (170) broblemau â sylweddau seicoweithredol newydd.



- Roedd 12417 arall wedi'u cyfeirio i wasanaethau cymorth cyffredinol. Ers cyflwyniad Future 4, gwasanaeth ailgyfeirio a chymorth i oedolion ifanc a merched, ym mis

Hydref, mae gwasanaeth Dyfodol wedi bod yn gweithio mewn modd integredig â'r staff hynny y maent yn rhannu'r gweithgareddau yn y ddalfa â nhw erbyn hyn.

Yn gryno – mae'r gwaith sy'n rhan o gonsortiw Future 4 wedi'i gomisiynu (Gwent a De Cymru) i helpu pobl i gael y cymorth angenrheidiol i osgoi'r heriau a'r effaith hirdymor a byrdymor anorfod yn sgil ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol, pan fo hynny'n bosibl. Mae hefyd yn rhoi cymorth i ferched drwy'r holl daith fel troseddwr.

Mae gwaith cyntaf oll F4 a Dyfodol yn digwydd yn dilyn arestiad yn nalfar Heddlu, felly mae'r ddau wasanaeth wedi bod yn gweithio ers mis Hydref i uno'r prosesau yn y lleoliad hwn er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael i Dyfodol ac F4, gan leihau'r dyblygu gymaint â phosibl a gwella'r ddarpariaeth. Mae bodolaeth prosesau sefydledig Dyfodol wedi galluogi cynnydd cyflym yn y ddalfa ac mae niferoedd sylweddol o atgyfeiriadau wedi dod i'r amlwg ar gyfer gwasanaethau F4 ac mae staff Dyfodol wedi elwa ar fod ag arbenigedd a dewisiadau ehangach yn y 'tîm'




Mae Future 4 yn gonsortiw o ddarparwyr (G4S, Cymru Ddiogelach, Include a Llamau) sy'n gweithio gydag unigolion sy'n dechrau yn y system cyfiawnder troseddol a phan fo'n bosibl, cynorthwyo i ailgyfeirio pobl i ffwrdd o gynnwys cyfiawnder troseddol ymhellach trwy ymyraethau a chymorth byr. Rhoddir cymorth tymor hirach i lawer hefyd.

Mae'r Cynllun Oedolion Ifanc (18-25) yn wasanaeth sy'n galluogi oedolion ifanc a'r rhai hynny nad oes ganddynt brofiad o'r system gyfiawnder i osgoi euogfarn ffurfiol ac i elwa ar gymorth i gamu ymlaen yn eu bywydau. Mae hefyd yn helpu camddefnyddwyr sylweddol lefel is i dorri eu cylch negyddol o ymddygiad.

Mae'r Dull System Gyfan Braenaru Merched yn darparu timau arbenigol i helpu merched sy'n dechrau yn y system cyfiawnder troseddol. Mae gweithwyr y Dull System Gyfan yn gallu cefnogi merched ar unrhyw bwynt ar eu taith droseddol, gan gynnwys adsefydlu ar ôl dedfryd dan glo.

Mae'r ddau gynllun yn darparu gweithiwr achos penodedig ar gyfer sesiynau un i un ynghyd â gweithdai grŵp.

Mae trefnau gweithio ar y cyd ar waith erbyn hyn i hyrwyddo proses esmwyth a buddion cymorth sylweddol i'r rhai sy'n mynd i'r ddalfa yn Ne Cymru a Gwent.



Marchnadoedd Cyffuriau a Llinellau Cyffuriau

Canabis a chocên yw'r prif gyffuriau sydd ar gael ledled De Cymru o hyd, yn bennaf trwy economi'r nos. Yn eilradd i hyn yw'r farchnad fwy problematig sy'n delio heroin a chrac cocên sy'n amlwg yng ngharfan Dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae Dyfodol wedi gweld sawl cynnydd sydyn yn y defnydd o sylweddau Seicoweithredol yng Nghaerdydd ac Abertawe, wrth i 'Spice' gael ei ddefnyddio yn helaeth ymhlith y boblogaeth ddigartref, ac mae rhai mathau yn arwain at ymddygiad heriol iawn a sefyllfaoedd o orddos.

Mae'r farchnad gyffuriau bresennol yn gweithredu trwy gyfuniad o ddelwyr 'lleol' lefel isel (sy'n aml yn delio i ariannu eu harfer eu hunain) sy'n gweithredu ochr yn ochr â Gangiau Stryd Trefol, Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a Llinellau Cyffuriau. Mae defnyddwyr yn aml yn ffyddlon i'w delwyr lleol, fodd bynnag pe gallai Llinell Cyffuriau gynnig cynnyrch o ansawdd gwell neu os oes prinder cynnyrch, bydd defnyddwyr yn chwilio yn fuan am y lle gorau i gael yr hyn sydd ei angen arnynt. Rydym yn arbennig o ymwybodol y bydd hyn yn newid yn ystod yr achos o Covid-19, a byddwn yn monitro patrymau newidiol y defnydd o gyffuriau gyda'n partneriaid.

Mae Dyfodol wedi bod yn cyfrannu'n ddyddiol at wybodaeth yr Uned Reoli Sylfaenol am Llinellau Cyffuriau ac mae'n cyfrannu at holiadur ynghylch tueddiadau cyffuriau a gaiff ei ddefnyddio gan y Grŵp Bygythiadau Cyffuriau Rhanbarthol y mae Dyfodol yn rhan ohono. Mae'r cyfranogion yn cynnwys Heddlu Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent, yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol a gwasanaethau triniaeth, ac mae'r grŵp yn chwilio am dueddiadau cenedlaethol ac yn ceisio atal gweithgareddau Llinellau Cyffuriau. Mae gwaith Dyfodol gyda darparwyr gwasanaethau eraill a heddlu unedau rheoli sylfaenol lleol yn hyrwyddo'r neges ynglŷn â'r bygythiadau yn sgil Llinellau Cyffuriau â'r nod o wella ymwybyddiaeth ac adroddiadau y cyhoedd. Mae Dyfodol


hefyd wedi gweithio'n rhagweithiol i wella bywydau defnyddwyr gwasanaeth mwy agored i niwed y mae'r Llinellau Cyffuriau yn effeithio arnynt – er enghraifft, gweithredu ar wybodaeth gan ddefnyddiwr gwasanaeth am ddeliwr a oedd yn defnyddio ei fflat – arweiniodd yr arestiad yn sgil yr wybodaeth honno at gasglu swm o arian parod, cyffuriau ac arfau tanio.

ADRAN 3: CARCHARDAI SECTOR CYHOEDDUS

Mewnlif ac ymsefydlu:

Yn y carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru, mae timau Dyfodol yn parhau i gwrdd â'r holl ddyinion pan fyddant yn cyrraedd, gan sgrinio pob un am anghenion triniaeth ar gyfer camddefnydd sylweddau. Dyma ein prif ddull o sicrhau bod yr holl ddyinion yn ymwybodol o'r gwasanaeth. Mae'r sgrinio hwn yn galluogi staff Dyfodol mewn carchardai i harneisio unrhyw ysgogiad cychwynnol i ymgysylltu, ymdrin ag anghenion cychwynnol a sicrhau bod cymorth i alluogi cydweithwyr yn nhimau clinigol y carchar i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion rhagnodi allweddol yn brydlon.

Mae'r graff hwn yn dangos pa mor brysur y mae Dyfodol gyda'r mewnlif, mae oddeutu 530 o ddyinion yn cyrraedd carchardai cyhoeddus Cymru bob mis ac mae rhan fwyaf y mewnlif hwn yn CEM Caerdydd ac Abertawe o ganlyniad i natur/rôl y sefydliadau hynny.




O'r mewnlif hwn:

- Mae pob un yn derbyn sesiwn codi ymwybyddiaeth o leihau niwed:
- Mae rhyw chwarter yn cael cyngor, arweiniad a'u cyfeirio i wasanaeth camddefnydd sylweddau lefel isel:
- Mae ychydig llai na thraean o'r dynion hyn yn dechrau ar lwyth achosion Dyfodol.

Llwyth Achosion

Drwy gydol y flwyddyn mae'r llwyth achosion wedi bod yn gymharol sefydlog. Mae ein llwyth achosion cyffredinol wedi'u crynhoi yn bennaf yng ngharchardai Abertawe a Chaerdydd. Nid yw CEM Brynbuga a CEM Prescoed yn cadw unigolion yn ffurfiol sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon ac y mae angen triniaeth glinigol arnynt.



Mae'r prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys:

- Mae uwch weithwyr achos newydd yn CEM Abertawe a CEM Caerdydd wedi dechrau yn eu swydd ac wedi cyflwyno sefydlogrwydd a hwb o'r newydd i'r timau.
- Cyfraniad cryf at yr arolygiad da iawn o CEM Caerdydd.
- Cyflwyniad gwaith grŵp yn CEM Caerdydd.
- Ymsefydlu'n fwy y gwaith Rhagnodi Dyddiau Cynnar yn CEM Abertawe mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr cymunedol.
- Cydweithredu agos ag Arweinydd Strategol Cyffuriau Rhanbarthol Cymru ar gynlluniau i weithredu rhaglen Cymhelliant Byw Heb Sylweddau yn CEM Abertawe.
- Llawer mwy o reoli gweithredol ar gyfer olyniaeth staff a threfniadau recriwtio cynt a defnydd o wirfoddolwyr.
- Cydweithio cynyddol gryf â'r adrannau Gofal Iechyd ar lawr gwlad gyda chyfarfodydd clinigol wythnosol ac ar lefelau mwy strategol â Doctoriaid/cyfarwyddwyr clinigol. Mae


hyn yn cynnwys cyfrannu at faterion clinigol dyddiol yn ogystal â dulliau o feddyginiaeth amgen megis Espranor a Buvidal erbyn hyn.

- Cyflwyno deunyddiau adsefydlu ychwanegol a dulliau gan gynnwys SMART (CEM Caerdydd), BUDs, Modylau Cynllunio Ffordd o Fyw, Ymyraethau Deng Munud a gweithgareddau mewn cydweithrediad â'n Cyswllt Carchar a'n tîm Lles.
- Cydweithio yn CEM Prescoed ar ddigwyddiad Lles gan gynnwys sesiynau ar ddefnydd steroidau i ddynion.

Er bod llawer o'n gwaith eto i gael ei deilwra i gyfnodau byr yn y carchar, rydym yn canolbwyntio ar y gwaith mwyaf effeithiol o gynnal triniaeth adeg cyrraedd a gadael, gan helpu i gyflawni a chynnal sefydlogrwydd ac annog newid a chadernid.


Cynllunio Rhyddhau

Gwnaed 1,940 o atgyfeiriadau carchar gan dimau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai i dimau cymunedol Dyfodol yn 2019/20. Sylwer – Ni fydd pob un o'r atgyfeiriadau hyn wedi'u rhyddhau yn y flwyddyn adrodd 2020/21.



ADRAN 4: YMGYSYLLTIAD Â GWASANAETHAU CYMUNEDOL AR ÔL RHYDDHAU


Mae'r graff hwn yn dangos niferoedd rhyddhau yn ôl Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) ond mae'n cynnwys y carchar sy'n rhyddhau, gan ddangos dosbarthiadau rhesymegol yn ôl lleoliad y carchar.



Cafodd 1360 (924 clinigol a 436 anghlinigol) o bobl eu rhyddhau o'r carchar i wasanaethau cymunedol Dyfodol yn 2019/20 a chynigiwyd apwyntiad ôl-ryddhau i bob un o'r rhain. Ar y cyfan, aeth 962 o'r rhai a adawodd y carchar i'w hapwyntiad â gwasanaethau Dyfodol ar ôl eu rhyddhau (71%).


Ymgysylltiad clinigol ar ôl rhyddhau

■ Wedi mynychu (782) ■ Heb fynychu (142)




Ymgysylltiad anghlinigol ar ôl rhyddhau

■ Wedi mynychu (180) ■ Heb fynychu (256)




Ymgysylltiad adeg rhyddhau yn ôl rhywedd

■ Gwryw (790) ■ Benyw (172)




Ymgysylltiad cychwynnol ar ôl rhyddhau




Mae nifer o astudiaethau ac adroddiadau wedi nodi bod cymryd rhan mewn rhaglen driniaeth yn ffactor amddiffynnol yn erbyn gwenwyn cyffuriau. Mae ymchwilyr yn nodi'n arbennig hefyd bwysigrwydd parhad triniaeth ar ôl rhyddhau o'r carchar ('Reducing Opioid-Related Deaths in the UK' – Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau 2016 (t2), 'The Patel Report' – Yr Athro Arglwydd Patel a'r Grŵp Adolygu'r Strategaeth Cyffuriau mewn Carchardai (2010), 'Evaluation of Drug Recovery Wings in Prisons' gan Charlie Lloyd et al (2017)). Yn rhinwedd hynny, mae'n bwysig ystyried a ydym yn llwyddo i ymgysylltu â phobl ar ôl eu rhyddhau, ac os felly, am ba hyd. Drwy gydol 2019/20, mae Dyfodol wedi llwyddo i gadw 78% yn y gwasanaeth am fwy na phedair wythnos a 50% am fwy na 12 wythnos. Mae hyn yn amddiffyniad amlwg yn erbyn gwenwyn cyffuriau.

Pobl sy'n gadael y carchar - wythnosau mewn triniaeth



Er bod Dyfodol yn gweithio gydag unigolion sy'n aml â ffordd o fyw wedi'i seilio ar droseddu ac arestiadau a dedfrydau o garchar cylchol, mae'r graff isod yn dangos sut y mae cyfran y bobl sy'n datgysylltu ym mhob ffenest yn lleihau yn sylweddol ar ôl ymgysylltu am 12 wythnos. Mae hyn yn dangos po hiraf y mae rhywun yn ymgysylltu â thriniaeth gyda'r gwasanaeth hwn, y lleiaf tebygol y maent o ddychwelyd i droseddu a allai arwain at ddedfryd o garchar.

Pobl sy'n gadael y carchar sy'n dychwelyd i'r carchar



I grynhoi, mae Dyfodol yn ymgysylltu nifer rhyfeddol o unigolion â rhaglenni triniaeth cyffuriau 'trwy'r porth' ac yn llwyddo i'w cadw yn y gwasanaeth am gyfnodau sylweddol.

- Po hiraf y mae'r bobl hyn yn aros ar y rhaglen driniaeth, y lleiaf tebygol y byddant o farw yn sgil cyffuriau.
- Po hiraf y mae'r bobl hyn yn aros ar y rhaglen driniaeth, y lleiaf tebygol y byddant o ddychwelyd i droseddu.

ADRAN 5: DATBLYGIAD, ARLOESED A GWERTH YCHWANEGOL GWASANAETH DYFODOL

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Dyfodol wedi ymgymryd â nifer o ffrydiau gwaith ychwanegol i barhau i ddatblygu darpariaeth i bobl agored i niwed yn Ne Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys, yn gyntaf, darpariaeth gwasanaethau i Gyngor Caerdydd i ddarparu gwasanaethau triniaeth glinigol i bobl ddigartref ac yn ail, cyflawni cyllid llithriant ar gyfer 30 o leoedd triniaeth a chymorth ychwanegol ym Mwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin i bobl agored i niwed sydd mewn perygl difrifol o orddos (yn rhan o'r ymateb i farwolaethau o orddos a godwyd yn ddigwyddiad critigol gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn y rhanbarth.) Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu lleoedd hefyd i weithwyr rhyw risg uchel problematig yn ardal Abertawe. Mae Dyfodol hefyd yn gweithio gyda Tai yn Gyntaf yn Abertawe i gefnogi partneriaeth â'r Wallich a Kaleidoscope, ac mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth Dyfodol yn cymryd rhan yn y prosiect.



Mae Dyfodol wedi bod yn treialu pigiadau Bivalent ers mis Gorffennaf 2019, gyda chymorth y cyflenwr fferyllol a Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro. Mae buddion y feddyginiaeth newydd hon yn canolbwyntio ar y ffaith y gall bara hyd at 34 diwrnod yn y system ar ôl iddo drwytho'n llawn, felly mae angen llai o sesiynau triniaeth wyneb yn wyneb â chlinigwyr. Gall hefyd leihau'r tarfu ar batrymau dyddiol camddefnyddio sylweddau sy'n aml yn rhwystr i weithgareddau eraill, yn ogystal â lleihau'r cysylltiad dyddiol ag eraill sy'n derbyn triniaeth a all ddylanwadu ar feddyliau ac ymddygiad.

Mae'r driniaeth hon yn lleihau'r angen i fynd i fferyllfeydd neu ganolfannau triniaeth yn ddyddiol a'r stigma sy'n gysylltiedig â defnydd dyddiol o fethadon dan oruchwyliaeth. Mae'n golygu bod mwy o gyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ganolbwyntio yn fwy ar yr elfennau seicogymdeithasol sy'n helpu i arwain at newidiadau bywyd sy'n chwahu'r ddibyniaeth ar sylweddau. Mae'r treialon cychwynnol wedi newid bywyd rhai defnyddwyr gwasanaeth, yn arbennig gan fod y driniaeth wedi'i threialu gyda phobl fwy caotig. Nid yw'r driniaeth hon yn addas i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn y cyfnod cyn Covid-19, gwelwyd bod gan y driniaeth newydd (ond drud) hon y potensial i leihau nifer y bobl sy'n galw'n ddyddiol i wasanaethau a fferyllfeydd – gan wella trefniadau cadw pellter cymdeithasol a lleihau'r risg o orddos.

Mae'r arloesedd hwn wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a Byrddau Cynllunio Ardal ac mae Dyfodol wedi cael cynnig cyllid ychwanegol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod COVID-19, yn arbennig:

- y rhai sy'n gadael y carchar;
- y rhai y mae angen eu gwarchod;
- defnyddwyr gwasanaeth digartref neu'r rhai hynny mewn llety arbennig o ansefydlog;
- newydd ddyfodiaid yn y gymuned (yn enwedig y rhai y nodir eu bod yn wael yn ymgysylltu, y rhai arbennig o agored i orddos ac ystyrir bod titratiad yn arbennig o beryglus neu'n anodd yn ymarferol, neu'r rhai hynny sy'n debygol o ailgyfeirio eu meddyginiaeth yn amhriodol);
- y rhai hynny y mae eu hymgysylltiad yn golygu eu bod mewn perygl o fethu triniaeth glinigol.

Yn amlwg, rydym yn falch iawn o fod yn gweithio ar flaen yr arloesedd hwn, ond yn wiliadwrus ynghylch y risgiau parhaus i gyllidebau clinigol a chapasiti staff ar ôl COVID-19.

Triniaeth Alcohol

Mae Dyfodol wedi gweithio gyda phartneriaid Yfed Doeth Heneiddio'n Dda ledled Cwm Taf i gynnal hyfforddiant ar gymorth alcohol i bobl hŷn. Mae tîm Dyfodol Caerdydd wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid y GIG ym Mwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro i alluogi mynediad uniongyrchol i raglen dadwenwyno cleifion mewn ysbyty ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Dyfodol â dibyniaeth ddifrifol ar alcohol. Mae ymyraethau'r Grŵp Alcohol wedi esblygu i 'grwpiau alcohol dan arweiniad cymheiriaid' gyda staff Dyfodol yn cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n arwain y sesiynau grŵp.

Gweithio gyda chymhlethdod

Mae'r garfan o ddefnyddwyr gwasanaeth a gefnogir mewn amryw o ffyrdd yn adlewyrchu rhai o'r unigolion mwyaf cymhleth, agored i niwed a chaotig mewn cymunedau. Mae staff yn ymgysylltu â phobl sy'n aml mewn argyfwng dyddiol, a bu pwyslais cynyddol ar ystyried sut i symud pobl o argyfwng er mwyn iddynt allu gwneud gwaith wedi'i gynllunio â mwy o bwyslais ar eu lles a'u ffordd o fyw. Mae clinigau achosion cymhleth ar gyfer staff wedi'u comisiynu a'u cyflenwi gan ein seicolegwyr ffforensig partner eleni, â'r nod o gefnogi staff ag achosion anodd neu 'sownd' trwy

ddarparu ymyraethau hyfforddiant grŵp sy'n ystyried enghreifftiau o achosion penodol y mae staff yn eu cyflwyno i'r sesiwn. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod,
- Anhwylder personoliaeth,
- Defnyddwyr gwasanaeth ymosodol,
- Anaf i'r pen,
- Iechyd meddwl,
- Defnyddwyr gwasanaeth sy'n ferched.

Ymyraethau a gweithgareddau grŵp

Mae Dyfodol wedi datblygu cyfres glir o egwyddorion i lywio'u gwaith, sy'n canolbwyntio ar ddulliau seicoleg gadarnhaol â phwyslais ar les. Mae ymchwil yn dangos yn gynyddol y gellid ystyried y gwaith hwn yn rhan sylfaenol o helpu pobl i reoli eu bywydau yn fwy effeithiol ac y dylai ffurfio rhan allweddol o waith gyda phobl pan fyddant yn ddigon sefydlog i ymgysylltu. Mae strwythurau penodol wedi'u sefydlu i ysgogi syniadau a dulliau o wneud hyn. Mae llawer o'r enghreifftiau uchod ac isod yn adlewyrchu hyn.

Fe wnaethom ni ddarparu ystod o weithgareddau ac ymyraethau grŵp yn 2019-20:

- Grwpiau merched â hyd at 12 mewn un sesiwn. Darparu canlyniadau cadarnhaol wrth i ddefnyddwyr ymgysylltu â gwasanaethau eraill sy'n cael eu gwahodd i'r grŵp, megis iechyd rhywiol ac asiantaethau budd-daliadau.
- Sesiynau canu, yoga a mwytho i wella lles a hunanhyder.
- Dosbarthiadau coginio i roi sgiliau ymarferol a chynghor ar goginio maethlon ar gyllideb.
- Dosbarthiadau creadigol i ehangu prosesau meddwl a datblygu sgiliau datrys a dadansoddi problemau.
- Cynhelir grwpiau adfer SMART dan



arweiniad cymheiriaid mewn nifer o ganolfannau. Mae Cyfle Cymru yn darparu gweithgareddau cyflogaeth a hyfforddiant. Bu hefyd grwpiau crefft, sesiynau meddylfryd cadarnhaol, ymwybyddiaeth ofalgar a thechnegau diriaethu.

Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi manteisio ar y cyfleoedd cerdded niferus, gan gynnwys y Daith Gerdded Adfer flynyddol i gopa Pen-y-fan.

Ceir partneriaethau datblygedig â Phêl-droed Stryd i'r Digartref a rhoddwyd cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gefnogi Cwpan y Byd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2019.

Gweithio mewn Partneriaeth â Dogs Trust a Therapy Dogs UK


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Lesley Lloyd, Cydlynnydd Lles G4S i CEM Abertawe, wedi recriwtio ei chi Rex (yn y llun) yn Gi Therapi yn y Carchar ac mae wedi ei gyflwyno i ganolfannau cymunedol Dyfodol hefyd. Yn gyntaf, fe wnaeth feithrin partneriaeth â Dogs Trust a gynhaliodd ei gwrs addysg i garcharorion. Mae amcanion y cwrs yn cynnwys:

- Yn benodol: Gwella gwybodaeth sylfaenol y dysgwyr o les ac ymddygiad cŵn. Codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith o ran perchen ar gi. Atal diwylliant esgeuluso cŵn ac annog dewisiadau cadarnhaol o ran perchen ar gi.
- Yn fras: Datblygu dealltwriaeth bod canlyniad i bob gweithred. Gwella sgiliau rhyngweithio a chyfathrebu.

Yn ystod y cwrs, mae staff diogelwch yn dod â 'chi chwilio' i'r ystafell, ac mae cyfranogion yn treulio amser gyda'r ci ac yn deillio o hyn, daeth menter i wahodd Therapy Dogs UK i

sesiynau gyda'r dynion i'w gwobrwyo am gwblhau'r cwrs. Yna, gofynnodd Lesley i'r elusen genedlaethol Therapy Dogs UK asesu ac ardystio Rex yn Gi Therapi swyddogol. Mae ei sesiynau wedi bod yn gymaint o lwyddiant, mae llawer o ddynion wedi cwblhau'r cwrs ac wedi mwynhau'r amser gyda'r cŵn.

Ym mis Chwefror aeth Lesley i'r Senedd i siarad am ei gwaith gyda'r gweinidogion a swyddogion eraill. Ers y Nadolig, mae hi wedi mynd â'i chi i ganolfan Dyfodol Castell-nedd i gwrdd â'r defnyddwyr gwasanaeth yno, ac mae canolfan Pen-y-bont ar Ogwr



wedi cynnal ei chwrs Dogs Trust ei hun. Mae'r cwrs yn para pum wythnos a chafwyd chwe chyfranogwr.

Roedd y sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol:

"Fe wnes i fwynhau'r cwrs a gafodd ei gynnal gan Dogs Trust yn fawr iawn. Fe wnes i ddysgu pethau doeddwn i ddim yn eu gwybod o'r blaen. Roeddwn i hefyd yn gallu dysgu'r ffordd orau o ofalu am fy nghi a'i hyfforddi. Doedd dim rhaid i fi fynd i'r grŵp, ond es i beth bynnag gan fy mod i'n mwynhau dysgu pethau newydd ac roedd gen i ddiddordeb yn y sesiynau."

Mae cynlluniau ar waith erbyn hyn i gynnal y grŵp hwn yng nghanolfan Castell-nedd pan fydd y sefyllfa bresennol yn gwella. Mae cynlluniau eraill ar waith i drefnu bod Ci Therapi yn mynychu canolfannau Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac rydym yn gweithio ar opsiynau tebyg yng Nghaerdydd.